# *CYNGOR TREF PORTHMADOG*

**6.30 Cyflwyniad gan Alys Rees Jones o Gyngor Gwynedd ar Gronfa Cynghorau Tref a Chymuned.**
Cafwyd cyflwyniad gan Alys Rees Jones yn egluro sut y gallai Cyngor Tref Porthmadog gynnig am grantiau o Gronfa Cynghorau Tref a Chymuned eleni. Roedd hyd at £7000 ar gael i'r Cyngor Tref i gynnig amdano. Trafodwyd y posiblrwydd o gael grant i wneud gwell defnydd o'r Parc ac i ariannu digwyddiadau i ddathlu canmlwyddiant marwolaeth Eifion Wyn. Cytunwyd bod y Clerc yn cydlynnu y cais grant.

**COFNODION PWYLLGOR EIDDO A DATBLYGU**
**7 yh nos Fawrth Ebrill 28ain 2026**

1. **Presennol:**Cyng. Gwilym Jones (Cadeirydd), Cyng. Dr. Melfyn Edwards (Is-gadeirydd), Cyng. Carol Hayes, Cyng. Jeremy Davies, Cyng. Glenda Murray, Cyng. Karena Owens, Cyng. Edward Naish, Cyng. Alwyn Gruffydd, Cyng. Sarah Williams, Cyng. Michael Roberts.
Elfyn Lewis (Clerc).

**Absennol:**
Cyng. Aled Griffith, Cyng. Llywelyn Rhys

**Ymddiheuriadau.**
Dim

2. **Cae Pawb:**
Roedd y Clerc wedi derbyn tri dyfynbris er mwyn cael giat newydd i Gae Pawb i atal troseddwyr i gael mynedfa i'r safle. Derbynwyd dyfynbris F.D. Fencing.
Mae'r Clerc dal i aros am ddiweddariad gan yr heddlu ar ol y troseddau a'r fandaliaeth ddigwyddodd ar y safle yn ystod yr wythnosau diweddaraf.

## <u>ADRODDIAD AR ARCHWILIAD CAE PAWB Ebrill 25ain 2026</u>

**Presennol**: Cynghorwyr: Carol Hayes, Jeremy Davies

Elfyn Lewis (Clerc)

Robin Asby (Cadeirydd Cymdeithas Rhandiroedd Cae Pawb).

### Y rhandiroedd:

Cytunwyd fod y rhandiroedd mewn cyflwr arbennig yn enwedig ar ol Gaeaf gwlyb a gwyntog 25-26. Roedd y tywydd braf yn ystod Ebrill 2026 wedi ysgogi y garddwyr i ail-ddechrau ar y dasg o dyfu llysiau, ffrwythau a blodau am y flwyddyn. Roedd y mwyafrif llethol o'r rhandiroedd mewn cyflwr arbennig ac yn cael gofal drwy gydol y flwyddyn er mwyn sichrau tyfiant a chynnyrch llwyddiannus.

Roedd pedwar tenant wedi gofyn am cael eu heithro o'r archwiliad oherwydd anhwylder. Roedd tenantiaid dau o'r plotiau wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar. Roedd dau denant arall yn denantiaid newydd ac oni wedi dechrau cael trefn ar eu plotiau yn y misoedd diwethaf.

Mynegwyd pryder am dau o'r plotiau a'r penderfyniad gan y Cynghorwyr oedd yn bresenol oedd gyrru llythyr i'r ddau denant i'w hatgoffa o'r rheolau yn enwedig rheol 2 a 9 :-

*2. Mae'n rhaid i bob plot gael ei gynnal a'i gadw trwy gydol y flwyddyn.  Mae'n ofynnol cadw*

DRAFT

*bob plot o dir yn daclus hyd yn oed y tu allan i'r tymor tyfu.*

*9. Mae'n rhaid gwneud defnydd blynyddol o'r plotiau – nid yw'n ddigonol bod y plot wedi cael ei dalu amdano. Ni fydd eich plot ar gael y flwyddyn ganlynol oni chafodd ei drin y flwyddyn flaenorol.*

Mae deg person ar y rhestr aros.

**3. Llwybrau:**
Dim i'w adrodd.

**4. Cae Chwarae Bodawen:**
Roedd Y Clerc a'r Cadeirydd yn cyfarfod cynrhychiolwyr o Fisher German a'r Grid Cenedlaethol yn Cae Chwarae Bodawen ar Ebrill 30ain er mwyn cael diweddariad ar y gwaith o godi'r ceblau trydannol o dan y safle a gosod rhai newydd. Bydd y gwaith yn cymeryd oddeutu dwy flynedd i'w gwblhau. Bydd rhaid i Gyngor Tref Porthmadog gydweithio gyda Fisher German i sicrhau bod y cyhoedd yn ymwybodol o'r ffaith y bydd y parc a'r offer chwarae ddim ar gael yn ystod y cyfnod yma a bydd offer newydd ar y safle ar ol cwblhau y gwaith.

**5. Bryn Coffa:**
Roedd y cangen lleol o'r Lleng Brydeinig wedi gofyn i'r Cyngor Tref i dorri mwy o'r coed ar Bryn Coffa er mwyn i'r cyhoedd allu weld y groes o'r palmant yn ystod Sul y Cofio. Penderfynwyd i'r Clerc gysylltu gyda Barry Edwards am fwy o wybodaeth.

**6. Llochesi Bws:**
Dim i'w adrodd.

**7. Cerflun Mr Madocks:**
Dim i'w adrodd.

**8. Goleuadau Nadolig:**
Mae'r Cyng. Karena Owens wedi bod yn brysur yn cynnal cyfarfodydd er mwyn trefnu digwyddiadau ar gyfer noson goleuo Port 2026:

a) Sefydlu grwp o bobl lleol i gynorthwyo gyda'r dasg o godi arian ar gyfer trefniadau Noson Goleuo Port 2026.
   Mae dau gyfarfod wedi bod eisoes.
b) Diweddariad gyda'r bwriad i gael coeden Nadolig eletrig yn hytrach nag un naturiol ym Mhorthmadog.
   Y clerc i drafod gyda R.J.Electrics.
c) Trafod y posiblrwydd o leoli'r goeden Nadolig ym Mhorthmadog mewn man mwy amlwg na'r Parc.
   Y clerc i drafod gyda R.J.Electrics.
d) Trafod y posiblrwydd o symud y noson goleuo i Ddydd Sadwrn a'i wneud yn ddigwyddiad trwy'r dydd er mwyn i fusnesau lleol elwa o gael mwy o bobl yn y dref.
   Y Clerc i gysylltu gyda R.J Electrics i drafod os ydi'n bosib iddynt fod yn bresennol ar y dydd Sadwrn i sicrhau bod y goleuadau yn mynd ymlaen yn iawn.

DRAFT

*Elfyn Lewis (Clerc/Clerk),39 Heol Fadog, Porthmadog,Gwynedd,LL49 9BU*
*Ffôn / Tel : 01766 514210*
*E-bost/ e-mail : clerccyngtreport@gmail.com*